

<b>Ymyrraeth</b>	<b>Cynnig Casnewydd</b>		Chwarter 1 2021-22	<b>Gwyrdd</b>	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd
				<b>Melyn</b>	Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd
<b>Yn Arwain</b>	Y Cynghorydd Jane Mudd a Steve Ward	<b>Cyfnod Adrodd</b>		<b>Coch</b>	Cynnydd ymhell o fwrw'r targed
<b>Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau</b>			<b>Mesuriadau Perfformiad Allweddol</b>		
Adolygiad o weledigaeth, camau a chymau gweithredu Cynnig Casnewydd a gwblhawyd.			Targed		
Cais a gyflwynwyd i Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU i wella ardaloedd cyhoeddus a chefnogi cyfleoedd i greu lleoedd a buddsoddi yn ardal Porth y Gogledd. Nod y cynigion yw croesawu a chyfeirio pobl yn glir at graidd Canol y Ddinas ac adlewyrchu lle o ansawdd uchel i breswylwyr ac ymwelwyr.			Gwirioneddol		
Sicrhawyd £7 miliwn o gyllid Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru tuag at ganolfan hamdden a lles newydd yng nghanol y ddinas sy'n darparu cyfleusterau o'r radd flaenaf ar lan yr afon. Datblygu cynigion a dyluniadau terfynol ar y gweill.			CMG		
Datblygu Datganiad o Ddiddordeb i Gasnewydd (ac ardal "Gwent" ehangach) fod yn Ddinas Diwylliant y DU 2025. Y nod yw tynnu sylw at yr hyn sydd gan y ddinas a'r rhanbarth i'w gynnig a defnyddio'r cyfle fel sbardun ar gyfer newid yn y tymor hwy. Y meysydd ffocws yw: ein cymunedau ethnig a'n hiaith amrywiol, gan gynnwys y Gymraeg; ein hunaniaeth hanesyddol; ein stori o 'ddinas ddiwydiannol i ddinas ddata'; y celfyddydau, cerddoriaeth, chwaraeon a'r cyfryngau; teithio llesol a newid yn yr hinsawdd; ac addysg arloesol.			<b>Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol</b>		
<a href="#">Gwefan Cyrchfan Casnewydd</a> wedi'i gwella gyda chynnwys newydd i hyrwyddo asedau, cryfderau a gweledigaeth y ddinas i ymwelwyr, busnesau, trigolion a buddsoddwyr.			Bydd prosiectau allweddol yn cael eu cwblhau yng nghanol y ddinas yn ail hanner 2021:		
Arian grant a sicrhawyd gan Sefydliad Wolfson i gefnogi datblygiad Pont Gludo Casnewydd yn atyniad twristaidd mawr (ar ben cyllid Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Llywodraeth Cymru).			<ul style="list-style-type: none"> <li>Adnewyddu Marchnad Casnewydd fel marchnad draddodiadol ochr yn ochr â gofod swyddfa defnydd hyblyg.</li> <li>Adnewyddu Arcêd y Farchnad.</li> <li>Creu swyddfeydd manyleb uchel newydd yn Stryd y Felin.</li> <li>Cytuno ar delerau gyda Tramshed Tech i feddiannu lloriau isaf adeilad yr hen orsaf reilffordd a darparu lle i fusnesau newydd yn y sectorau digidol, technoleg a chreadigol.</li> </ul>		
Roedd gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd yn cynnwys annog trigolion i rannu eu hatgofion o Arcêd y Farchnad a'u barn am ei ddyfodol drwy arolwg ar-lein. Lansiwyd y gystadleuaeth gyda Chyngor Ieuenticid Casnewydd i blant a phobl ifanc ddylunio uned a fydd yn ychwanegu at ffocws "rhaid gweld" yr Arcêd.			Gwaith i ddechrau ar ailddatblygu Pont Gludo Casnewydd gyda rhaglen ymgysylltu ategol i gynnwys preswylwyr.		
			Cyflwyno Datganiad o Ddiddordeb ym mis Gorffennaf i Gasnewydd fod yn Ddinas Diwylliant y DU 2025.		
			Cyflwyno cais cynllunio llawn ar gyfer y ganolfan hamdden a lles.		
<b>Prif Risgiau / Rhwystrau i gynydd</b>		<b>Statws (U/C/I)</b>	<b>Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen</b>		
Cylch gwaith grwpiau sy'n cyfrannu at ddatblygu dinasoedd yn gorgyffwrdd a diffyg eglurder ynghylch rolau.		C	Mapio a rhesymoli grwpiau rhanddeiliaid i egluro rolau.		